# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **13 Mawrth 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd W Gareth Roberts** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Aled Davies** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | aled@gwynedd.llyw.cymru<br>01286 679003 (estyniad 32003) |
| **Teitl yr Eitem:** | **Rhaglen arbedion yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** |

### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo:

a) Cyfuno rhai cynlluniau (sydd eisoes wedi eu cymeradwyo) i ffrydiau gwaith sydd yn cyflawni arbedion o'r un cyllidebau, ac ail broffilio cyfwerth â £270,000 o arbedion o 2018/19 i 2019/20 fel yr amlinellir yn rhan 7 o'r adroddiad.

b) Cynyddu'r targed arbedion mewn rhai meysydd sy'n cyflawni mwy na'r targed gwreiddiol, sef £195,000 yn 2018/19 a £200,000 yn 2019/20, fel yr amlinellir yn rhan 8 o'r adroddiad.

c) Cynyddu'r targed arbedion o gynlluniau newydd sef £390,000 yn 2018/19 a £570,000 yn 2019/20, fel yr amlinellir yn rhan 9 o'r adroddiad.

### Cyd-destun

1. Mae wedi bod yn fwriad gan yr Adran ers peth amser i ail strwythuro a rhesymoli y rhaglen o gynlluniau arbedion a gyflwynwyd.

### Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2. Mae llawer wedi newid yn y maes gofal yn genedlaethol ers i'r rhaglen gael ei chyflwyno a hynny yn cynnwys newidiadau deddfwriaethol a newidiadau ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran canllawiau a chynlluniau ariannu. Mae'r darlun ehangach yma, ynghyd a chryn addasiadau yn y ffordd y mae'r Adran bellach yn gweithio ar lefel lleol yn golygu bod y rhaglen wreiddiol, er yn ymgais i gyflawni ar yr amcanion corfforaethol o gyflawni arbedion, bellach yn

cymhlethu os nad yn llesteirio ychydig ar yr ymdrechion i ganfod arbedion ochr yn ochr â thrawsnewid gwasanaethau'r Adran.

**CYFLWYNIAD**

3. Mae’r adroddiad hwn yn nodi:
   - Amlygu yr angen a gofyn am yr hawl i newid proffil cyflawn i rai cynlluniau;
   - Cynlluniau sydd yn cyflawni mwy na’r targed gwreiddiol; a
   - Cynlluniau sydd yn cyfrannu at y targed ac at osgoi yr angen i ystyried allanoli gwasanaethau ar hyn o bryd.

4. Hyderir y bydd y newidiadau arfaethedig yn:
   - Adlewyrchu y rhaglen trawsnewid o fewn yr Adran.
   - Symleiddio y broses adrodd ar gyflawni arbedion.
   - Rhyddhau amser staff i gyflawni gwaith llinell flaen ar gynlluniau trawsnewid ac adnabod beth sy’n bwysig i drigolion y Sir.
   - Hwyluso gallu’r Adran i gwblhau’r gwaith o gyflawni ar gyfer rhaglen arbedion y Cyngor.

**RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

5. I gyflawni y cynlluniau trawsnewid ac arbedion bydd y pwyslais ar ddefnyddio trefniadau gwaith ‘systems’ a llunio gwasanaethau ar sail beth sy’n bwysig i unigolion yn flaenllaw.

6. Wrth gwrs, mae pwysau newidiadau demograffig a’r cyd-destun anodd o ran ariannu llywodraeth leol yn cymhlethu’r her i gyflawni arbedion ond, trwy roi ffocws priodol ar waith ataliol o fewn gwasanaethau gofal ac iechyd ac ar beth sy’n bwysig i’r unigolyn yna gellid gweithio yn fwy effeithlon eto. Mae rhaglen fuddsoddi arfaethedig yr Adran trwy y broses bidio mewnol, Cynllun Strategol y Cyngor a chronfa ICF yn rhoi cryn bwyslais ar ddatblygu gwasanaethau ataliol e.e. gwaith llesiant megis Dementia Go, yn ymdrechu i hwyluso hyn. Ochr yn ochr â hyn mae cynigion yr Adran i fuddsoddi adnoddau yn ddarbodus trwy Gynllun Asedau y Cyngor hefyd wedi ei siapio ar sail newid y balans o fewn y model gofal yng Ngwynedd.

**Cyfuno Cynlluniau ac ail broffilio lle mae angen addasu y proffil cyflawn**

7. Mewn cydweithrediad gyda staff yr Adran Cyllid, mae Pennaeth ac uwch reolwyr yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eisoes yn gweithredu ar gynlluniau o fewn y rhaglen wreiddiol mewn modd gwahanol i’r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol. Hynny yw, rydym eisoes yn ymdrin â chynlluniau trwy eu cyflwyno i nifer llai o ffrydiau gwaith sydd yn cyflawni arbedion o’r un cyllidebau heb gael trefniadau ffurfiol ar gyfer pob cynllun yn unigol. Mae'r profiad a gafwyd o waith ardal Eifionydd a’r hyn a ddysgwyd ohono ynghyd â’r profiadau yn y maes anableddau dysgu yn cynnig tystiolaeth i gyfiawnhau gweithredu yn y modd yma.

   Oherwydd amgylchiadau amrywiol megis amserlen adeiladu neu gapasiti staffio ar gyfer gweithredu’r rhaglen arbedion ehangach, bydd angen newid proffil rhai cynlluniau yn y rhaglen arbedion bresennol. Y rhain yw:

| Cyf | Cynllun | Proffil Presennol | | Proffil Amgen | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2018/19 | 2019/20 | 2018/19 | 2019/20 |
| OED22 | Ystyried Tai Gwarchod/TGY fel llety amgen i wlâu preswyl | 120,000 | 80,000 | | |
| OED25 | Adolygu pecynnau cinio / te (gofal cartref) | 75,000 | | | |
| **Ail fodelu Gwasanaethau Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyredd** | | | | 60,000 | 215,000 |
| OED34 | Gwella effeithlonrwydd gweithwyr maes *** | 75,000 | | | |
| **Gwella effeithlonrwydd gweithwyr maes** | | | | | 75,000 |
| C2 | Dileu 2 swydd allan o 7.5 yn yr Uned cefnogi Systemau o fewn y Gwasanaeth Oedolion (Toriad) | 60,000 | | | |
| **Maes Tai** | | | | | 60,000 |
| | Cyfanswm | 330,000 | 80,000 | 60,000 | 350,000 |

*** Dylid nodi bod yr Adran yn parhau i ystyried ymarferoldeb gweithredu cynlluniau arbediad OED34. Mae y ffordd newydd o weithio yn dibynnu ar gael capasiti staff proffesiynol digonol i gynnal sgyrsiau "Beth sy'n bwysig" gyda thrigolion ac i sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth briodol. Tra bod y bwriad presennol i lithro yr arbediad, os yw y dystiolaeth o'r Timau Adnoddau Cymunedol Integredig yn dangos bod angen y niferoedd presennol i gynnal y gwasanaeth, yna bydd yr Adran yn canfod cynlluniau amgen i wireddu'r arbediad.

**Cynlluniau sy'n cyflawni mwy na'r targed gwreiddiol:**

8. Mae gwaith yr Adran ar rai cynlluniau yn cynnig tystiolaeth y gallent gyfrannu mwy tuag at arbedion na'r amcangyfrif gwreiddiol. Mae'r buddsoddiad mewn capasiti, staff ac offer ynghyd â chynlluniau trawsnewid trwy systems yn rhai o'r prif resymau dros hynny. Mae'r cynlluniau yma yn bennaf o fewn y Gwasanaeth Pobl Hyn a'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu ac eisoes wedi cael sêl bendith. Y cynlluniau yw:

| | Cynllun | Arbedion ychwanegol | |
|---|---|---|---|
| | | 2018/19 | 2019/20 |
| 1. | Ail fodelu Gwasanaethau Anableddau Dysgu | £100,000 | £100,000 |
| 2. | Cynyddu Cyfraniadau Gofal Iechyd Parhaus | £45,000 | £30,000 |
| 3. | Cynyddu incwm a lleihau costau eraill | £50,000 | £70,000 |
| | CYFANSWM | £195,000 | £200,000 |

**Cynlluniau Newydd sy'n cyfrannu at y targed**

9. Yn ychwanegol, mae dau gynllun newydd wedi eu hadnabod sydd yn cyfrannu at y targed ac sydd yn ein galluogi i osgoi gorfod ystyried allanoli gwasanaethau darparu ar hyn o bryd:

| | Cynllun | Arbedion ychwanegol | |
|---|---|---|---|
| | | 2018/19 | 2019/20 |
| 1. | Comisiynu'n ddoeth - Gwasanaeth Iechyd Meddwl | £40,000 | £60,000 |
| 2. | Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn | £350,000 | £510,000 |
| | CYFANSWM | £390,000 | £570,000 |

Mae y ddau gynllun yma wedi ei seilio ar gyflawni arbedion trwy leihau y nifer o becynnau "traddodiadol" a gomisiynir ond yn hytrach cynnig cyfleoedd a chefnogaeth i alluogi pobl gyflawni beth sydd yn bwysig ar sail eu cryfderau ac o fewn eu cartrefi a'u cymunedau. Gallai cyflawni hyn yn effeithiol sicrhau arbedion tra yn cynnig cystal os nad gwell gwasanaethau i drigolion y Sir.

10. Ar ran yr Adran, hoffai yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth fynegi eu gwerthfawrogiad o ymdrech staff yr Adran o ran yr arbedion a wireddwyd hyd yma ac o ran paratoi y cynlluniau sydd eto i ddwyn ffrwyth. Mae eu syniadau gwreiddiol a'u hagwedd gadarnhaol tuag at drawsnewid, ac yn rhai achosion i ddatgymalu trefniadau fu yn eu lle am flynyddoedd maith, wedi bod yn allweddol ar y daith hyd yma. Fe fydd y cyfraniad yma yn fwy pwysig fel y bydd y pwrs cyhoeddus yn lleihau ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.

**CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

11. Bydd yr ychwanegiadau a nodir yn yr adroddiad yma yn cwblhau'r disgwyliad ar yr Adran i gyflawni ei darged arbedion o'r gyfundrefn arbedion a luniwyd ar gyfer y cyfnod 2015 - 2018.

12. Os bydd y Cabinet yn fodlon gyda'r cynigion i lunio rhaglen ddiwygiedig bydd yr Adran, ar y cyd â staff yr Adran Cyllid yn gwneud yr addasiadau ariannol angenrheidiol i'r rhaglen ac yn ffurfioli trefniadau ar gyfer cyflawni ac adrodd ar y cynlluniau trwy y cyfarfodydd monitro perfformiad chwarterol.

**SYLWADAU Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**Prif Swyddog Cyllid:**

Rwy'n croesawu'r adroddiad ac yn cadarnhau fod y ffigyrau ariannol ynglŷn â gwerth yr arbedion yn rhan 7-9 o'r adroddiad yn amcangyfrifon teg. Lluniwyd cyllideb 2018/19 gan wybod fod yr adroddiad / cynlluniau yma'n ddisgwyliedig, felly gellid dygymod gyda'r ail-broffilio o fewn y strategaeth ariannol bresennol.